
# SYDNEY WATKINS

## CLWB PÊL-RWYD DARE VALLEY FLYERS

Mae Dare Valley Flyers yn glwb pêl-rwyd newydd sydd wedi'i leoli yn Aberdâr. Cafodd y clwb ei lansio ym mis Ionawr, yn dilyn apêl ar-lein am wirfoddolwyr. Gwelodd Sydney yr hysbyseb ar y cyfryngau cymdeithasol a chysylltodd â'r clwb i gofrestru yn hyfforddwr gwirfoddol! Mae Sydney wedi dangos gwir ymroddiad i'r clwb ers mis Ionawr. Mae hi wedi mynd ati i fod yn Brif Hyfforddwr, tra'i bod hi hefyd yn astudio yn y coleg ac yn gweithio.

Mae Sydney yn cynllunio ac yn cynnal pob sesiwn hyfforddi ac mae hi wedi trefnu gemau cyfeillgar yn erbyn clybiau lleol. Mae hi hefyd wedi ymweld ag ysgolion lleol ac wedi cynnal sesiynau blasu llawn hwyl er mwyn denu aelodau newydd. Mae Sydney wedi meithrin perthynas hyfryd gyda'r holl chwaraewyr yn ystod y cyfnod byr yma, ac mae hi'n dal ati i wneud hynny. Mae hi'n eu hannog a'u hysgogi i ddysgu a datblygu. Mae aelodau'r clwb yn teimlo'n ffodus iawn i'w chael hi yno!



Chwaraeon RhCT
Sport RCT

# GWIRFODDOLWR Y MIS

## MAI 2024